

Derbyniadau Ysgol Uwchradd– Cwestiynau Cyffredin

1. *A ddylwn i ddangos ffafriaeth am fwy nag un ysgol?*

Gallwch fynegi ffafriaeth am gyn gymaint o ysgolion ag y dymunwch. Gall y cais gynnwys ysgolion y tu allan i Sir y Fflint a byddwn yn rhoi gwybod i'r Awdurdod Lleol perthnasol o'ch cais. (Fodd bynnag mae Gorllewin Swydd Caer a Chyngor Caer yn gofyn i chi ddefnyddio eu ffurflenni cais nhw ar gyfer ysgolion yn eu hardal) Ein bwriad bob tro yw dyrannu'ch dewis cyntaf i chi ond os ydym yn derbyn mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, byddwn yn troi at y meini prawf gordanysgrifio ac os nad ydych yn bodloni'r meini prawf hynny, gallwn ystyried eich ail ddewis ac yn y blaen nes y gallwn gynnig lle i'ch plentyn. Os ydych wedi nodi un ysgol yn unig, dim ond yr ysgol honno allwn ni ei hystyried. Sylwch na fydd rhestru'r un ysgol fwy nag unwaith yn rhoi gwell siawns i chi o gael lle yn yr ysgol honno.

2. *Beth sy'n digwydd os na chaf i fy newis cyntaf?*

Cesglir yr holl ddewisiadau a byddwn yn cynnig lle sydd ar gael ar gyfer yr ysgol o'ch dewis sydd uchaf yn eich rhestr. Felly, os yw eich dewis 1af yn aflwyddiannus yna bydd eich 2il ddewis yn cael ei ystyried fel eich dewis 1af yn gyfartal â'r dewisiadau 1af eraill ar gyfer yr ysgol honno ac yn y blaen hyd nes y byddwn yn gallu cynnig lle i'ch plentyn mewn ysgol.

3. *Beth os bydd fy holl ddewisiadau yn aflwyddiannus?*

Gallwn roi enw'ch plentyn ar restr aros, gallwch dderbyn lle mewn ysgol arall sydd â lle i'ch plentyn a defnyddio'ch hawl i apelio.

4. *Pa mor bwysig yw'r dyddiad cau?*

Mae'n **rhaid** i'ch cais ddod i law erbyn y dyddiad cau neu fel arall bydd yn cael ei ystyried ar ôl y rhai a dderbyniwyd ar amser. Mae'r dyddiad a'r amser yn cael ei nodi ar geisiadau ar-lein wrth iddynt gael eu derbyn

5. *Lle gellir dod o hyd i'r meini prawf lle mae mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael?*

Mae'r holl fanylion ar gael ar ein gwefan www.flintshire.gov.uk/SchoolAdmissions

6. *Pwy sy'n cael ei ystyried i fod yn frawd neu chwaer?*

Diffinnir brawd neu chwaer fel perthynas llawn, hanner chwaer/hanner brawd, llysfrawd/llyschwaer, chwaer neu frawd maeth neu fabwysiedig yn byw gyda'u gilydd fel un aelwyd yn yr un cyfeiriad a lle mae'r chwaer neu frawd hŷn o oedran ysgol statudol, hy blynnyddoedd 7 – 11, ac yn dal i fod wedi'u cofrestru yn yr ysgol o ddewis pan fydd y plentyn ieuengaf yn gymwys i fynychu.

Brodyr a chwiorydd sy'n mynd i flwyddyn 12/13 pan fydd y plentyn iau yn dechrau ym mlwyddyn 7 ddim yn cael eu hystyried o dan y rheol brawd a chwaer.

7.Ddylwn i anfon fy ffurflen i mewn yn gyflym er mwyn sicrhau fy mod yn cael cynnig fy newis 1af.

Ystyrir pob cais ar ôl y dyddiad cau nid erbyn y dyddiad a dderbyniwyd. Mae'r amser a roddir i rieni am geisiadau oddeutu 9 wythnos, gyda'r bwriad o ystyried eich dewisiadau yn ofalus.

8.Pryd y caf wybod pa ysgol y cynigir lle i mhlentyn?

Byddwch yn cael gwybod am y cynnig a gynigir ar 1 Mawrth ac ni fydd unrhyw fanylion yn cael ei roi cyn y dyddiad hwnnw.

9.A fydd fy mhlentyn yn cael cludiant ysgol am ddim i'r ysgol a ffefrir?

Mae'r polisi cludiant ar gael yn y 'Canllaw i Wasanaethau Addysg' ar www.flintshire.gov.uk/SchoolAdmissions

10.Beth os fyddai'n symud tŷ ar ôl y dyddiad cau?

Cyn belled â darperir manylion unrhyw newidiadau i'ch dewisiadau a phrawf o symud tŷ cyn 11 Ionawr 2019, byddwn yn gwneud newidiadau ar eich rhan.

Amserlen ar gyfer derbyniadau i ysgolion uwchradd

Ffurflenni derbyniadau ar gael i rieni	Cyfnod ystyriaeth i rieni	Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni	Cyfnod dyrannu lleoedd	Hysbysu rhieni erbyn:
10/09/2018	10/09/2018 - 09/11/2018	09/11/2018	12/11/2018 - 11/01/2019	01/03/2019